

Y Cynllun Sabothol Cenedlaethol – Taflen Asesu Cyfweliad Llafar
Rhif myfyriwr Jonathan Moore Dyddiad 11eg o Ragfyr 2025

Meini Prawf	Methu	Llwyddo		Teilyngdod	Rhagoriaeth	
	0-39	40-49	50-59	60-69	70-79	80-100
Ynganu’n glir a Chymreig ar y cyfan ond rhai enghreifftiau o ynganu anghywir / Seisnigaidd ar brydiau. Ynganu’n glir a Chymreig gan fwyaf. Ynganu’n gwbl glir a Chymreig.				X		
Defnyddio brawddegau a phatrymau syml wrth ymateb yn strwythuredig. Defnyddio brawddegau a phatrymau sylfaenol gan ymateb yn naturiol gan fwyaf. Defnyddio brawddegau a phatrymau amrywiol a heriol wrth ymateb yn naturiol.			X			
Ffuriau syml y ferf yn gywir gan fwyaf, ansicrwydd ynglŷn ag amrywio’r defnydd o’r ferf h.y. defnyddio ffurfiau/amseroedd anghywir ar adegau. Defnydd o’r ferf yn sylfaenol gywir; amrywio amseroedd y ferf gan fwyaf. Defnydd cywir o’r ferf yn gyson gan amrywio amser yn effeithiol a phwrpasol.			X			
Yn llefaru’n bytiog iawn gan adael sawl brawddeg a chymal heb eu gorffen. Yn llefaru’n rhugl, ond yn oedi ar adegau. Yn cwblhau bron pob brawddeg neu gymal. Yn llefaru’n gwbl rugl a diymdrech heb oedi arwyddocaol. Yn cwblhau pob brawddeg neu gymal.			X			
Cywirdeb llafar: defnydd cywir ar y cyfan ond gyda rhai gwallau sylfaenol yn amharu ar ddealltwriaeth. Cywirdeb llafar: defnydd cywir gan fwyaf heb fod unrhyw wallau yn amharu ar ddealltwriaeth. Cywirdeb llafar: defnydd cywir a chyson o’r iaith gyda rhai mân wallau yn unig.			X			
Gallu gwerthuso eu profiadau, eu sesiynau addysgu a’u hadnoddau addysgu yn syml. Gallu gwerthuso eu profiadau, eu sesiynau addysgu a’u hadnoddau addysgu yn gryno ac yn bwrpasol. Gallu gwerthuso eu profiadau, eu sesiynau addysgu a’u hadnoddau addysgu yn bwrpasol ac yn effeithiol.			X			

Methu - [] Llwyddo - [] Teilyngdod - [X] Rhagoriaeth - []

Marc 55%
Llofnod tiwtor: Gwen Davies
Ail farciwr: H. Jones

Oral Interview Assessment Sheet

Student Number.....

Date.....

	0-39	40-49	50-59	60-69	70-79	80-100
<u>Pronunciation is clear on the whole</u> with some examples of inaccurate / English-sounding pronunciation at times. <u>Pronunciation is mostly clear and accurate.</u> <u>Pronunciation is entirely clear and accurate.</u>						
<u>Uses simple sentences and patterns</u> when responding with structure. <u>Basic sentences and patterns</u> used when responding naturally. <u>A variety of challenging sentences and patterns</u> are used when responding naturally.						
Simple <u>forms of the verb</u> are mostly correct, uncertainty in varying the use of the verb i.e. occasional incorrect use of forms/tenses <u>Use of the verb</u> basically accurate; varies verb tenses mostly. Consistently accurate <u>use of the verb</u> varying tense effectively and appropriately.						
<u>Speech is very patchy</u> leaving many sentences and clauses incomplete. <u>Speech is fluent, but with hesitation at times.</u> Completes almost all sentences or clauses. <u>Speech is entirely fluent and effortless with no significant hesitation.</u> Completes all sentences or clauses.						
<u>Oral accuracy: accurate use of the language on the whole</u> with some basic mistakes that affect understanding. <u>Oral accuracy: mostly accurate use</u> of language with no mistakes that affect understanding. <u>Oral accuracy: consistently accurate use</u> of language with only some minor mistakes. mutations, terms, noun gender and prepositions.						
Able to evaluate their experiences, their micro teaching and educational resources <u>in a simple manner.</u> <u>Able to evaluate their experiences, their micro teaching and educational resources purposefully and concisely.</u> <u>Able to evaluate their experience, their micro teaching and educational resources purposefully and effectively.</u>						

Fail - []

Pass - []

Merit – []

Distinction- []

Mark:

Tutor :.....

Second marker:

Y Cynllun Sabothol Cenedlaethol – Taflen Adborth Cyfweiliad Llafar

Rhif	Jonathan Moore
Cryfderau	Y Ffordd ymlaen
Berfau Roeddech yn defnyddio brawddegau a phatrymau amrywiol wrth ymateb yn naturiol: Rydw i'n mwynhau.... Rydw i'n addysgu.... Rydw i'n hoffi... Rydw i'n dod o.... Rydw i'n hoffi pêl-droed a chwarae gemau gyda fy nheulu. Dydw i ddim yn hoffi garddio. Mae Gruff yn naw oed. Cerddais i.. Es i i Yfais i Aethon ni Bwyton ni Bydda i'n Hoffwn i Dysgais i	Berfau Dydy dim bysedd gwyrdd gyda fi > Does dim bysedd gwyrdd gyda fi. Mae Mike ffrind gyda fi. > Mae ffrind gyda fi o'r enw Mike. - o'r enw = called Byddwn i = I would Bydda i = I will Rydw i'n credu Caerfyrddin yn ddiogel. > Rydw i'n credu bod Caerfyrddin yn ddiogel. Rydw i'n mynd i Big Ben = I am going to Big Ben Es i i weld Big Ben. = I went Doedd dim yn hoffi pannas. > Dydw i ddim yn hoffi pannas. (=I don't like parsnips). Mae Mike yn dwlu ar gwyliais i ffilm hefyd. > Mae Mike yn hoffi gwyllo ffilmiau hefyd. = <i>Mike likes watching films too.</i> Mae Mike yn dwlu ar wyllo ffilmiau. = <i>Mike loves watching films.</i> gwyliais i = I <i>watched</i> Hoffwn i mynd i sinema achos dwlu ar y ffilmiau. > Hoffwn i mynd i'r sinema achos rydw i'n dwlu ar ffilmiau. Hoffwn i wedi gorffen siopa Nadolig. > Hoffwn i fod wedi gorffen siopa Nadolig. Tipyn bach siopa Nadolig > Mae tipyn bach o siopa Nadolig ar ôl gyda fi. (=I have a little Christmas shopping left)
Brawddegau John ydw i. fel ei fam. Roeddech chi'n ymestyn eich brawddegau, e.e. achos mae'n ddiddorol achos mae'n flasus	Brawddegau Mae e gwallt golau > Mae gwallt golau gyda fe . Dim sbectol gyda fe. > Does dim sbectol gyda fe. Mae Wil yn gwallt brown. > Mae gwallt brown gyda Wil fel gyda fi > fel sy gyda fi. Rydw i'n dysgu yn Ysgol Llandeilo. Rydw i'n addysgu Blwyddyn 4 mewn ysgol. > ... yn yr ysgol. Cwestiynau ac atebion Oes teulu gyda ti? Oes, dau mab gyda fi. > Oes, mae dau fab gyda fi. Mae ci'r enw Mali > Enw'r ci ydy Mali./ Mali ydy enw'r ci.

achos mae pen tost gyda fi. maen nhw'n ofnadwy (lluosog)	Ydych chi (ti a Mike) yn mynd i'r sinema weithiau? Oes > Ydyn (=yes, we do). Beth fwytai't ti neithiwr? > Fwytais i... > Bwytais i..... Dweda rywbeth am y gwyliau gorau gest ti. = (<i>Say something about the best holiday you have had.</i>) Roeddwn i'n fynd i Mam.(=<i>I was going to Mam</i>) > Es i at Mam. / Roeddwn i wedi bod i weld Mam. Rydw i'n mynd i Big Ben.(= <i>I am going to Big Ben</i>). > Es i i weld Big Ben. (<i>I went to see Big Ben</i>). Est ti ar y cwch? Na > Naddo. Fy nheulu ddim hoffi llong > Dyw fy nheulu ddim yn hoffi llong. Wyt ti'n hoffi cyri sbeislyd? Oes > Ydw.(<i>Yes, I do</i>) Beth oeddet ti'n hoffi wneud, pan oeddet ti'n blentyn? Oeddet ti'n ifanc, roeddet ti'n dwlu ar chwarae pêl-droed. > Pan oeddwn i'n ifanc, roeddwn i'n dwlu ar chwarae pêl-droed. Pan oeddet ti'n ifanc, rydw i'n hoffi darllen a mathemateg. (= <i>When you were young, I like reading</i>) > Pan oeddwn i'n ifanc, roeddwn i'n hoffi darllen a mathemateg yn yr ysgol. Beth oeddet ti'n hoffi ddarllen? (<i>What did you like reading?</i>) Rydw i'n hoffi darllen Harry Potter. (= <i>I like reading HP</i>). > Roeddwn i'n hoffi darllen HP. Ble byddi di'n mynd dros y penwythnos? (= <i>Where will you go over the weekend?</i>) > Cerddais i gyda ffrindiau, mynd am dro. Gwnes i siopa Nadolig a golchi dillad. (= <i>I walked with friends, went for a walk. I did the shopping and washed clothes.</i>) > Bydda i'n mynd i gerdded.... Rydw i'n meddwl maen nhw'n ofnadwy. > Rydw i'n meddwl eu bod nhw'n ofnadwy. Beth ddylet ti wneud y flwyddyn nesaf i wella dy Gymraeg? Hoffwn i > Dylwn i..... Dysgais i mor hyderus am y cwrs dechrau, rydw i'n teimlo'n nerfus, ond mae gwneud gwers eto. > Ar ddechrau'r Cwrs, roeddwn i'n teimlo'n nerfus. (= <i>At the beginning of the course, I felt nervous</i>) Rydw i'n teimlo'n fwy hyderus nawr. (= <i>I am feeling more confident now</i>). Mwy siarad gyda'r plant > Hoffwn i siarad mwy gyda'r plant.
Cywirdeb Treigladau yng Nghaerfyrddin, yng nghanol y dref,	Treigladau yn / 'n > treiglad meddal mewn enwau ac ansoddeiriau: Rydw i'n pedwar deg pedwar... > Rydw i'n bedwar deg.... dau > treiglad meddal, dau mab > dau fab

fy nheulu, fy mrawd. Es i i Gernyw. o Gernyw. Geirfa Cernyw effeithiol tŷ ar wahân diogel gobeithio cadw'n heini moron panas	Mae gwrthrych berf gryno'n treiglo'n feddal (<i>The object of a short form verb mutates softly</i>) Yfais + i + ddŵr <i>Short form verb + subject + object (What?)</i> Yfais i dŵr. > Yfais i ddŵr achos mae pen tost gyda fi. Yfais i cwrw a win. > Yfais i gwrw a gwin. Bwytais i byrger a sglodion neithiwr. > Bwytais i fyrger... Bwyton ni cyri > Bwyton ni gyri sbeislyd. Hoffwn i mynd... > Hoffwn i fynd a > treigladau Rydw i'n hoffi nofio a cadw'n heini achos mae'n hwyl > a chadw'n heini. a tatws rhost > a thatws rhost a pawb > a phawb
Ymadroddion wrth gwrs mor wlyb mynd am dro tipyn bach	Geiriau bach Rydw i'n eisiau addysgu Cymraeg. > Rydw i eisiau.... ..mynd i'r siopa > mynd i siopa = to go shopping ..mynd i'r siopau = to go to the shops Rydw i'n dwlu cyri. > Rydw i'n dwlu ar gyri. mewn ysgol = in a school yn yr ysgol = in the school Hoffwn ni'n siarad mwy... > Hoffwn i siarad mwy....
Adfyfrio Rydw i'n teimlo'n nerfus. Rydw i'n mwynhau'r Meicro Ddysgu ac addysgu. Rydw i'n mwy hyderus nawr. Pwysig drilio gemau. Pwysig drilio'r patrymau newydd. Roedd hi'n braf clywed dy fod yn fwy hyderus i ddefnyddio'r Gymraeg, Jon.	Geirfa Ynganu Cernyw, newydd.
Canolbwyntiwrch ar...	
Sylwadau: Roeddech yn ymestyn eich brawddegau'n dda ac yn defnyddio llawer o ansoddeiriau, e.e. cyri sbeislyd. ➤ Canolbwyntiwrch ar y berfau. Rydych chi'n cymysgu amseroedd y ferf. Gwrandewch ar amser y ferf yn y cwestiwn cyn ei ateb. Cyn Tymor 2, adolygwch y berfau: Uned 8 – Y Presennol Uned 16 – Yr Amherffaith Uned 24 – Gofyn cwestiynau	

Uned 26 – Y Dyfodol
Uned 32 – Mynegi Barn, e.e. eu bod nhw
Uned 34 – Gofyn Cwestiynau
Uned 35 – Hoffwn i
Uned 36 – Dylwn i
Uned 37 – Baswn i a Taswn i
Mae’r patrymau ar ddiwedd yr unedau.

- Mae brawddegau cadarnhaol yn dechrau fel arfer gyda berf, e.e. **Mae** dau **fab** gyda fi. **Dydw** i ddim yn hoffi mynd ar long.

Pob dymuniad da i chi yn Nhymor 2.

Methu	Llwyddo	Teilyngdod	Rhagoriaeth
	X		

Marc: 55%

Llofnod tiwtor: *Gwen Davies*

Ail farciwr H. Jones